# COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R CYNGOR A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 26 CHWEFROR 2025 16:00

## Yn bresennol

Cynghorydd H Griffiths – Maer a Chadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| A R Berrow | S J Bletsoe | JPD Blundell | E L P Caparros |
| RJ Collins | HJ David | P Davies | M J Evans |
| N Farr | J Gebbie | W R Goode | RM Granville |
| S J Griffiths | GH Haines | M L Hughes | D M Hughes |
| M R John | M Jones | W J Kendall | M Lewis |
| J Llewellyn-Hopkins | J E Pratt | JC Spaswick | JH Tildesley MBE |
| G Walter | A Wathan | AJ Williams | HM Williams |
| I Williams | E D Winstanley | T Wood | |

## Yn bresennol yn rhithiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | N Clarke | C L C Davies | P Ford |
| D T Harrison | RM James | P W Jenkins | R Penhale-Thomas |
| I M Spiller | T Thomas | MJ Williams | R Williams |

## Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Jackie Davies | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Laura Griffiths | Prif Gyfreithiwr |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |

| | |
|---|---|
| Kelly Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol |

## 103. Ymddiheuriadau am absenoldeb

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth yr aelodau canlynol:-<br><br>Cynghorydd M Kearn<br>Cynghorydd Alex Williams<br>Cynghorydd F Bletsoe<br>Cynghorydd R Smith |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 26 Chwefror 2025 |

## 104. Datgan Buddiant

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Datganodd yr Aelodau y buddiannau personol a ganlyn:-<br><br>Cynghorydd R Williams – Eitemau 3 a 5 ar yr Agenda, fel aelod o Gyngor Tref Pencoed, gan fod yr adroddiad yn cyfeirio at y Gronfa Cynghorau Tref a Chymuned.<br><br>Cynghorydd Amanda Williams – Eitemau 3 a 5 ar yr Agenda, fel Llywodraethwr Cymunedol yn Ysgol Gynradd Coety<br><br>Cynghorydd E Winstanley - Eitemau 3 a 5 ar yr agenda, fel gweithiwr Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen a llywodraethwr ysgol yn Ysgol Gynradd Afon y Felin ac Ysgol y Ferch o'r Sgêr<br><br>Cynghorydd I Williams – Eitemau 3 a 5 ar yr Agenda, fel llywodraethwr ysgol yn Ysgol Gyfun Brynteg ac Ysgol Gynradd Oldcastle ac fel aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Cynghorydd M John – Eitem 3 ar yr Agenda, fel llywodraethwr ysgol yn Ysgol Iau Bryncethin |

| | |
|---|---|
| | Cynghorydd J Gebbie - Eitemau 3 a 5 ar yr agenda, fel llywodraethwr ysgol yn Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig<br><br>Cynghorydd M Evans – Eitemau 3 a 5 ar yr Agenda, fel aelod o Gyngor Tref Pencoed |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 26 Chwefror 2025 |

## 105. Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2025-26 i 2028-29

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid adroddiad ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) arfaethedig a oedd yn nodi blaenoriaethau gwariant y Cyngor ar gyfer y 4 blynedd nesaf ochr yn ochr â chyllideb fanwl ar gyfer 2025-26.<br><br>Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r canlynol:-<br><br>• Y cyd-destun ariannol, deddfwriaethol a pholisi wrth baratoi'r gyllideb ddrafft, ynghyd â gwybodaeth fanylach am y gwasanaethau sydd i'w darparu gan y Cyngor dros gyfnod y SATC.<br><br>• Bod y SATC arfaethedig wedi'i llywio gan 13 o egwyddorion SATC y Cyngor, ynghyd ag egwyddorion ychwanegol ar gyfer y gyllideb a geisiwyd gan y Cabinet ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Datblygwyd yr SATC gan y Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol, gan ystyried trafodaethau â Phanel Ymchwil a Gwerthuso'r Gyllideb, Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Cyngor a'r Fforwm Cyllideb Ysgolion, a'r argymhellion ganddynt. Roedd y cyhoedd hefyd wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.<br><br>• Bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei chyllideb ddrafft ar 10 Rhagfyr 2024 cyn cyhoeddi’r setliad dros dro i lywodraeth leol ar 11 Rhagfyr 2024.<br><br>• O ran y setliad llywodraeth leol dros dro, y cynnydd i'r Cyllid Allanol Cyfun (AEF) oedd 4.3% ar raddfa Cymru gyfan. Y cynnydd ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr yw 3.9%.<br><br>• Na roddwyd unrhyw wybodaeth am gyllid mewn blynyddoedd i ddod, ond yn ôl yr arwyddion bydd y sefyllfa'n parhau i fod yn eithriadol o |

| | |
|---|---|
| | heriol.<br><br>• Bod nifer o grantiau penodol wedi'u trosglwyddo i mewn ac allan o'r setliad.<br><br>• Mai'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2025-26 yw £383.338 miliwn, a bod hyn yn cynnwys pwysau cyflogau a phrisiau disgwyliedig o £13.3 miliwn, pwysau o £14.454 miliwn ar gyllidebau gwasanaethau, gostyngiadau i'r gyllideb o £8.379 miliwn a chynnydd o 4.5% i'r dreth gyngor. Ceir dadansoddiad o'r gyllideb ar gyfer 2025-26 yn Nhabl 10.<br><br>• Bod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn nodi targed arbedion mwyaf tebygol o £39.516 miliwn dros y 4 blynedd ariannol nesaf.<br><br>• Bod cyllid cyfalaf cyffredinol y Cyngor wedi cynyddu £602,000 i £8.582 miliwn.<br><br>• Bod gan y swyddog Adran 151 ddyletswydd statudol i bennu cyllideb gytbwys a chadarn.<br><br>• Na chaiff y setliad terfynol ei gyhoeddi hyd ddiwedd mis Chwefror. O ganlyniad i hyn, mae'r gyllideb hon yn cael ei chynnig ar sail y setliad dros dro a gafwyd ym mis Rhagfyr 2024. Bydd newidiadau i'r Setliad Terfynol, fel trosglwyddo grantiau penodol i mewn, a chyllid ychwanegol, yn cael eu hadrodd i'r Cyngor maes o law, ond ni ragwelir y bydd hyn yn effeithio ar y dreth gyngor.<br><br>Cyhoeddodd y Maer fod SATC diwygiedig wedi cael ei chyflwyno gan Grŵp Annibynnol Sir Pen-y-bont ar Ogwr (BCI) yn unol â darpariaeth yng Nghyfansoddiad y Cyngor a bod y fersiwn honno wedi'i dderbyn gan y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid. Roedd y fersiwn wedi'i hanfon at yr holl aelodau a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol (BRhC) ymlaen llaw cyn y cyfarfod. Gofynnodd y Maer i Arweinydd Grŵp BCI roi amlinelliad o brif gynigion y gyllideb amgen.<br><br>Dywedodd yr Arweinydd Grŵp, Grŵp BCI fod y cynnig amgen yn diogelu ysgolion a'r gwasanaeth cwnsela ac yn lleihau'r toriad hwnnw o 1%, fel y dangosir yn y SATC, i 0.5% o'r gyllideb a ddirprwyir i'r Ysgolion. Esboniodd y byddai'r gostyngiad hwn yn cefnogi anghenion addysgol a iechyd meddwl a llesiant disgyblion, a hefyd yn rhoi mwy o gefnogaeth i'r staff addysgu. Byddai hyn yn ei dro yn lleihau achosion CAMHS.<br><br>Roedd dau brif faes i'w diogelu, sef y gwasanaethau cwnsela yn yr ysgol yn llawn, yn sgil yr argyfwng iechyd meddwl sy'n dod i'r amlwg ymhlith pobl ifanc, a gostyngiad i'r toriadau o £1,186m i £593k. Byddai hyn yn dod o doriadau i wasanaethau eraill o fewn y Cyngor fel y manylir yn y cynigion amgen. Roedd y gyllideb amgen hefyd yn cynnig sut y gallai CBS Pen-y-bont ar Ogwr ddefnyddio dulliau eraill i gynhyrchu cyllid ychwanegol. |

| | |
|---|---|
| | Awgrymodd yr Arweinydd Grŵp BCI, ni waeth pa gyllideb y ceid cytundeb arni heddiw, y dylai'r Panel Ymchwil a Gwerthuso'r Gyllideb, y Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol a grwpiau'r wrthblaid/aelodau yn cyfarfod yn fuan iawn yn y flwyddyn ariannol newydd, i edrych ar gyllid yr awdurdod lleol. Byddent hefyd yn monitro'r sefyllfa ariannol yn rheolaidd a pharhaus ar y cyfle cyntaf er mwyn sicrhau'r paratoadau gorau er mwyn llunio cynigion terfynol y SATC ar gyfer 2026-27 (wrth symud ymlaen).<br><br>Gofynnodd aelod beth fyddai'n digwydd pe bai rhai ysgolion bach yn cau o ganlyniad i'r gostyngiadau uchod. Roedd y gyllideb amgen yn cyfeirio at hynny.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc  fod canllawiau Llywodraeth Cymru yn diogelu ysgolion bach a gwledig, ac felly y byddai'n rhaid cynnal Arfarniad Opsiynau ffurfiol pe byddai'r Cyngor yn cytuno i gau ysgolion o'r fath. Byddai hyn yn golygu, o gytuno ar hynny, mai'r cynharaf y gallai'r ysgolion hyn gau fyddai tua mis Medi 2027. Felly, ni fyddai unrhyw arbedion o'r cynnig yn cael eu gwneud yn SATC y flwyddyn i ddod. Hefyd, o gytuno ar hynny, byddai costau pellach yn cael eu cynhyrchu o gostau drafnidiaeth, ac o wneud ysgolion eraill yn fwy i gynnwys disgyblion o'r ysgolion a fyddai'n cau. Roedd felly o'r farn na fyddai'r arbedion a awgrymwyd (y cyfeiriwyd atynt yn EV1 yr adroddiad) a oedd yn gyfanswm o £239k yn cael eu sicrhau.<br><br>Teimlai aelod y byddai'r cynigion a wnaed hefyd yn cael effaith ar lefel cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn y tymor hwy. Dywedwyd eisoes bod y rhain yn is nag a ddymunir.<br><br>Roedd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid yn cytuno â’r uchod, nid cymaint ar gyfer y flwyddyn 2025-26 a oedd i ddod, ond â'r hyn a ddywedwyd ar gyfer y blynyddoedd wedi hynny. Dywedodd hyn oherwydd er bod setliadau Llywodraeth Cymru yn anhysbys y tu hwnt i'r flwyddyn a oedd i ddod, roedd dadansoddwyr eisoes wedi rhagweld bod disgwyl i'r setliadau hynny fod yn heriol.<br><br>Awgrymodd yr Arweinydd Grŵp, Annibynwyr Llynfi efallai y dylid adolygu'r Cyfansoddiad o ran y broses o bennu'r gyllideb, i'w gwneud yn rhwyddach i ystyried unrhyw gynigion amgen gan aelodau'r gwrthbleidiau yn gynharach nag a ddigwyddodd eleni, gyda'r gyllideb amgen.<br><br>Mewn perthynas â'r toriad i'r gyllideb a gynigiwyd o £50k i gau'r swyddfeydd Dinesig am un diwrnod yr wythnos drwy gydol y flwyddyn, gofynnodd aelod sut oedd hyn wedi cael ei gyfrifo, ac a oedd yn cynnwys costau cyfalaf. Mewn ymateb i hyn, cadarnhawyd bod hyn yn cynnwys costau cyfalaf, ond dim costau refeniw, gan y byddai tîm yr Hwb Diogelu Aml-asiantaeth yn dal i ddod i mewn i'r adeilad yn llawnamser i ddefnyddio Llawr 4. Amcangyfrifodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau y byddai costau cyfleustodau ar gyfer hyn yn gwrthbwyso unrhyw arbedion arfaethedig. |

Gofynnodd aelod beth oedd cyfanswm y cyllid a oedd wedi'i dorri o'r gyllideb Addysg ers mis Mai 2022. Dywedodd yr Aelod Cabinet Addysg nad oedd yn gwybod yr ateb i hynny, ond y byddai'n cysylltu â'r aelod i'w hysbysu y tu allan i'r cyfarfod. Fodd bynnag, ychwanegodd yr Aelod Cabinet Addysg fod 39% o gyfanswm cyllideb y Cyngor yn cael ei ymrwymo i ysgolion.

Gan fod y gyllideb ddiwygiedig wedi'i chynnig a'i heilio, awgrymodd y Maer ei bod hi'n bryd cynnal pleidlais ar y gyllideb honno, a'r canlyniad oedd:-

| O blaid (y gyllideb ddiwygiedig) | Yn erbyn | Ymatal |
| --- | --- | --- |
| 12 | 32 | 1 |

Ni chytunwyd felly ar y gyllideb ddiwygiedig.

Gofynnodd y Maer wedyn am unrhyw ddatganiadau neu gwestiynau ynghylch y gyllideb wreiddiol a oedd wedi'i chynnwys ym mhecyn yr agenda.

Diolchodd yr Aelod Cabinet - Cyllid a Pherfformiad i'r tîm Cyllid am yr holl waith caled yr oeddent wedi'i ymrwymo i'r SATC. Teimlai fod proses y gyllideb wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf, pan oedd llyfr y Gyllideb wedi bod ar gael i'r holl aelodau. Roedd aelodau a swyddogion wedi rhoi cryn ymdrech i sicrhau cyllideb gytbwys, ac wedi gorfod edrych ar yr holl wasanaethau statudol ac anstatudol i weld ble orau i wneud toriadau hanfodol. Roedd nifer sylweddol o'r argymhellion ar gyfer y gyllideb a wnaed drwy'r broses graffu hefyd wedi cael eu derbyn gan y Cabinet. Yn ogystal â hyn, ychwanegodd, wrth symud ymlaen, y byddai grŵp Trawsbleidiol yn cael ei sefydlu, gyda chefnogaeth Swyddogion a staff addysgu, i ddadansoddi cyllid ysgolion ymhellach yn y dyfodol - cynnig a wnaed gan Lywodraeth Cymru.

Ychwanegodd yr Arweinydd hefyd ei gefnogaeth tuag at y gyllideb, gan gyfeirio at y ffaith bod y cynnydd arfaethedig i'r Dreth Gyngor gyda'r isaf, os nad yr isaf un yng Nghymru. Dywedodd fod yr awdurdod, wrth ystyried yr holl gynigion, wedi ymdrechu hyd eithaf ei allu i ddiogelu gwasanaethau sy'n wynebu'r cyhoedd, gan ddiogelu'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas,

Roedd aelod yn pryderu am y toriadau i'r gyllideb ysgolion, a byddai'n croesawu ymgysylltu mwy ystyrlon â phreswylwyr y Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol. Nid oedd yr ymgysylltu a gafwyd gan rai a gymerodd ran yn weithredol ac a roddodd adborth, yn gadarnhaol iawn, o leiaf yn ei Ward neilltuol ef. Teimlai y dylid gwthio am a) setliadau cyllideb tymor hwy, os oedd modd b) adolygiad o fformiwla Barnett, fel bod Cymru yn cael cyfran deg o gyllid y DU, ac c) diwygio awdurdodau lleol Cymru.

Tynnodd aelod sylw at y ffaith y byddai'r toriad arfaethedig i'r gwasanaethau cwnsela yn peryglu'r gefnogaeth i blant yn yr ysgol ar adeg pan fo cyfradd ddychrynllyd o uchel o hunan-niwed ymhlith pobl ifanc.

Nododd aelod nad oedd unrhyw sôn yn yr adroddiad ymhle y cafwyd hyd i'r dyraniad cyllidebol i adfer y toriad arfaethedig i'r gwasanaeth cerddoriaeth (cyfanswm cost o £726k). Roedd wedi nodi yn adroddiad y Cabinet ar y gyllideb ddrafft a ystyriwyd ym mis Ionawr 2025 nad oedd unrhyw arian 'dros ben' wedi'i grybwyll i'r diben hwn.

Dywedodd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid y crybwyllwyd ym mharagraff 3.6.3 o adroddiad y Cabinet nad oeddem wedi dyrannu holl gyllid y gyllideb ar y pryd, er na soniwyd yn union faint o arian a fyddai dros ben, er mwyn creu rhywfaint o hyblygrwydd wrth bennu'r SATC yn derfynol. Fodd bynnag, dyma lle'r oedd y cyllid ychwanegol wedi dod i allu adfer y toriad arfaethedig i'r gwasanaeth cerddoriaeth.

Wedi hynny cynigiwyd, eiliwyd a chytunwyd y dylid cynnal pleidlais ar argymhellion yr adroddiad. Dyma oedd y canlyniad:-

| O blaid (yr argymhelliad) | Yn erbyn | Ymatal |
|---|---|---|
| 27 | 16 | 0 |

Gan hynny,

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) 2025-26 i 2028-29, gan gynnwys cyllideb refeniw 2025-26 a Rhaglen Gyfalaf 2024-25 i 2034-35, gan gyfeirio’n benodol at y canlynol:-

- SATC 2025-26 i 2028-29 (Atodiad 3 yr adroddiad).
- Gofyniad Cyllideb Net o £383,338,259 yn 2025-26.
- Treth Gyngor Band D o £1,916.96 yn 2025-26 ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Tabl 17 y SATC).
- Cyllidebau 2025-26 fel y'u dyrannwyd yn unol â Thabl 10 ym mharagraff 4.1.3 o'r SATC.
- Y pwysau cyllidebol a amlinellwyd yn Atodiad C ar gyfer 2025-26 i 2028-29.
- Y gostyngiadau i'r gyllideb a amlinellwyd yn Atodiad D ar gyfer 2025-26 i 2028-29.

| | |
|---|---|
| | • Rhaglen Gyfalaf 2024-25 i 2034-35, sydd ynghlwm yn Atodiad G y SATC. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 26 Chwefror 2025 |

## 106. Treth Gyngor 2025-26

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid adroddiad er mwyn rhoi manylion i'r Cyngor am ofyniad y Dreth Gyngor ar gyfer y Cyngor Bwrdeistref Sirol wedi i'r Cyngor gymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar 26 Chwefror 2025, ynghyd â gofynion Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a'r Cynghorau Tref a Chymuned, ac i ofyn i'r Cyngor nodi'r tâl cyfunol ar gyfer pob ardal Cyngor Cymuned am bob band treth gyngor ar gyfer 2025-26.<br><br>Eglurodd fod Paragraff 3.1.2 (g) o'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol (FPRs) yn ei gwneud yn ofynnol iddi argymell lefel y Dreth Gyngor i'w chodi yn y flwyddyn sydd i ddod. Fel yr awdurdod lleol ar gyfer y Cyngor mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd fodloni ei ofyniad o dan Adran 33 a 34 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.<br><br>Roedd y canlynol yn bwyntiau allweddol i'w nodi o'r adroddiad:-<br><br>• Cyfanswm y gofyniad Treth Gyngor yw £131,226,134.<br>• Cyfanswm y gofyniad Treth Gyngor ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yw £106,698,377.<br>• Praesept Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru yw £21,076,848.<br>• Cyfanswm y gofyniad Treth Gyngor gan Gynghorau Tref a Chymuned yw £3,450,909.<br>• Yr hyn sy'n cyfateb i Fand D yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yw £1,916.96.<br>• Yr hyn sy'n cyfateb i Fand D ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru yw £378.67.<br>• Praesept cyfartalog Cynghorau Cymuned/Tref yw £62.00.<br>• Dyma'r codiadau i'r Dreth Gyngor: |

| | |
|---|---|
| | o Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 4.5%<br>o Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru%<br>o Cyfartaledd Cynghorau Tref a Chymuned 7.88%<br><br>Hysbysodd yr Aelod Cabinet - Cyllid a Pherfformiad y cyhoedd ac atgoffodd yr aelodau fod y Dreth Gyngor hefyd yn cynnwys nifer o ardollau, a oedd yn cynnwys Gwasanaethau Crwner Canolog De Cymru, Awdurdod Tân ac Achub De Cymru a Gwasanaeth Amlosgfa Margam ymhlith eraill.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Gan fod y Cyngor yn gynharach yn y cyfarfod wedi cymeradwyo’r gofyniad cyllidebol net arfaethedig ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o £106,698,377 ar gyfer 2025-26 a Threth Gyngor Band D ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o £1,916.96 ar gyfer 2025-26, cytunodd y Cyngor ymhellach i:<br><br>• nodi lefel y praesept gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, fel y nodir yn Nhabl 3 yr adroddiad.<br>• nodi cyfanswm taliadau'r Dreth Gyngor ar gyfer eiddo Band D ar gyfer 2025-26 ar gyfer pob un o’r ardaloedd Cyngor Cymuned fel yr amlinellir yn Nhabl 6 a’r tâl cyfunol ar gyfer pob ardal Cyngor Cymuned ar gyfer pob band treth fel yr amlinellir yn Atodiad A (i'r adroddiad). |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 26 Chwefror 2025 |

## 107. Strategaeth Gyfalaf 2025-26

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid adroddiad ar y Strategaeth Gyfalaf 2025-26 i 2034-35 (Atodiad A yr adroddiad y cyfeiriwyd ato), a oedd yn cynnwys y Dangosyddion Darbodus y mae’r Cyngor yn ei fesur ei hun yn eu herbyn yn ystod y flwyddyn ariannol a Datganiad Isafswm Darpariaeth Refeniw Blynyddol 2025-26 (Adran 7 o Atodiad A), i'w gymeradwyo.<br><br>Amlygodd yr adroddiad y canlynol:- |

| | |
|---|---|
| | • Mae deddfwriaeth yn llywodraethu'r rheolaeth ar wariant cyfalaf;<br>• Lluniwyd y Strategaeth Gyfalaf yn unol â Chod Materion Ariannol CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol;<br>• Mae'r Strategaeth Gyfalaf pennu egwyddorion arweiniol ar gyfer gwariant cyfalaf, a fframwaith ar gyfer rheoli cyllid cyfalaf;<br>• Mae'r Strategaeth Gyfalaf ar hyn o bryd yn seiliedig ar yr wybodaeth ariannol a adroddwyd yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.<br><br>Nododd aelod fod cyfanswm o £120m o wariant wedi'i gynnig ar gyfer 2025-26. Mewn perthynas â dyraniad o £82m o'r swm hwn tuag at welliannau addysgol, gofynnodd am fanylion pellach ynghylch yr hyn yr oedd yr arian hwn yn cael ei neilltuo ar ei gyfer.<br><br>Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc, mai ar gyfer adeiladau ysgol newydd Band B oedd y ffigur hwn yn bennaf, yn Heronsbridge ar gyfer ysgol arbennig o'r radd flaenaf, ar gyfer ysgol newydd ym Mynydd Cynffig, yn sgil methiant yr adeilad Babanod yno. O ran y Rhaglen Strategol Cymraeg ac Addysg, roedd ysgolion newydd hefyd wedi'u cynnig i gymryd lle Ysgol Bro Ogwr ym Mracla ac yng Nghorneli, gan gynnwys Ysgol Gynradd Afon y Felin.<br><br>Cyfeiriodd aelod at y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a'r rheolau sy'n cyfyngu ar y cyllid y gellir ei gyrchu drwy fenthyciadau, gan gynnwys unrhyw gyfyngiad ar fenthyca ar gyfer gweithgareddau masnachol. Dywedodd na fyddai hynny yn ôl pob tebyg yn atal unrhyw 'gynlluniau gwario i arbed', er enghraifft ar ynni solar, a fyddai'n torri ein costau yn hytrach na chynhyrchu refeniw allanol.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid y byddai rhywfaint o hyblygrwydd o ran yr uchod, ar yr amod nad oedd yr awdurdod lleol yn ceisio creu unrhyw enillion ariannol o unrhyw gynnig. Ychwanegodd y gallai CBSP hefyd fenthyca er mwyn helpu i wella hyfywedd ariannol y Cyngor ac/neu wasanaeth gwerthfawr, ond ddim i brynu unrhyw adeiladau hapfasnachol, fel yr oedd rhai awdurdodau lleol yn Lloegr wedi gwneud.<br><br>Nododd aelod fod y Cyngor fis Tachwedd diwethaf wedi ystyried adroddiad yn gofyn am gynnydd yn nyraniad y gyllideb ar gyfer Ysgol newydd Heronsbridge. Wedyn yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr 2025, cynhaliwyd trafodaeth bellach ar y cynllun hwn, gyda chynnig ychwanegol i symud Tŷ Harwood. Gofynnodd pam nad oedd y cynlluniau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a oedd gerbron yr aelodau heddiw, gan gynnwys unrhyw orwariant a ragamcanwyd ar gyfer y prosiectau.<br><br>Cadarnhaodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid, Tai a Newid fod cyllid ychwanegol wedi'i ymrwymo ar gyfer Ysgol |

| | |
|---|---|
| | Heronsbridge, ond bod y Cyngor yn disgwyl nes cwblhau Achos Busnes a oedd yn yr arfaeth ar gyfer y cynllun hwn, a fyddai'n cynnwys cyfraniad ar ffurf arian cyfatebol oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mewn perthynas â Thŷ Harwood, ychwanegodd nad oedd cytundeb eto ar unrhyw gyllid ar gyfer y prosiect hwn, ond y gellid cefnogi hyn drwy gyllid grant. Aeth y Dirprwy Arweinydd wedyn yn ei flaen i ymhelaethu ar hyn er budd y Cyngor.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor wedi cymeradwyo Strategaeth Gyfalaf 2025-26 i 2034-35, gan gynnwys Dangosyddion Darbodus 2025-26 i 2034-35 a Datganiad Isafswm Darpariaeth Refeniw Blynyddol (MRP) 2025-26, yn Atodiad A yr adroddiad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 26 Chwefror 2025 |

## 108. Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2025-26

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid adroddiad i'r dibenion a ganlyn:-<br><br>• Cyflwyno Strategaeth Gyfalaf 2025-26 i 2034-35 i'r Cyngor. Roedd y Strategaeth yn cynnwys y Dangosyddion Darbodus, a Datganiad Isafswm Darpariaeth Refeniw Blynyddol 2025-26.<br>• Nodi bod deddfwriaeth yn llywodraethu'r rheolaeth ar wariant cyfalaf.<br>• Cydnabod bod y Strategaeth Gyfalaf wedi'i llunio yn unol â Chod Materion Ariannol CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol.<br>• Cynghori bod y Strategaeth Gyfalaf yn sefydlu egwyddorion ar gyfer gwariant cyfalaf, a fframwaith ar gyfer rheoli cyllid cyfalaf.<br>• Pwysleisio wrth y Cyngor fod y Strategaeth Gyfalaf ar hyn o bryd yn seiliedig ar wybodaeth ariannol a adroddwyd yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.<br><br>Eglurodd fod Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor (para 3.5.1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid lunio Strategaeth Gyfalaf i'w chyflwyno gerbron y Cyngor, i'w chymeradwyo cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Rhaid i'r Strategaeth ddangos bod gwariant cyfalaf a phenderfyniadau buddsoddi yn cyd-fynd ag amcanion y gwasanaeth a'u bod yn rhoi ystyriaeth briodol i stiwardiaeth, gwerth am arian, darbodusrwydd, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd. |

| | |
|---|---|
| | Ychwanegodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid, fod yn rhaid i Strategaeth Gyfalaf gydymffurfio â gofynion Cod Materion Ariannol y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol.<br><br>Aeth yn ei blaen wedyn i ymhelaethu ar rai pwyntiau allweddol yn yr adroddiad er budd yr aelodau, cyn i'r Maer ofyn i'r aelodau a oedd ganddynt unrhyw gwestiynau ar y materion a amlygwyd yn yr adroddiad.<br><br>Dywedodd aelod fod materion rheoli trysorlys yn cael eu hystyried yn gyfnodol drwy'r broses Trosolwg a Chraffu. O dudalen 242 o'r adroddiad, nododd fod yna rhestr o ffynonellau cymeradwy y mae'r Awdurdod yn ymwneud â hwy, a oedd yn cynnwys awdurdodau lleol eraill. Nododd ymhellach fod rhai awdurdodau lleol yn Lloegr yn wynebu cyfyngiadau ariannol difrifol, gyda rhai ohonynt hyd yn oed wedi mynd yn fethdalwyr. Gofynnodd felly pa fesurau diogelu oedd gan CBSP yn eu lle i sicrhau, os neu pan fyddwn yn delio'n ariannol ag unrhyw ALl yn Lloegr, ein bod naill ai'n gallu cael yr holl arian yr ydym yn ei fuddsoddi yn ei ôl yn llawn neu ei ailfuddsoddi yn rhywle arall.<br><br>Cadarnhaodd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid fod gan CBSP hanes cadarn o ran rheoli unrhyw risgiau i'n buddsoddiadau ac, i'r perwyl hwnnw, roedd gennym restr gymeradwy o wrthbartïon rheolaidd yr ydym wedi cytuno i fuddsoddi â nhw. Pe bai'r rhestr hon yn newid mewn unrhyw ffordd, byddai angen cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer hynny. Roedd gan CBSP hefyd ddau fesur diogelu arall ar waith, sef cyfyngiad ar unrhyw fuddsoddiad â sefydliad arall (wedi'i gapio) yn ogystal ag uchafswm amser ar gyfer buddsoddiad o'r fath. Roedd y Cyngor hefyd yn derbyn cyngor oddi wrth ei Gynghorwyr Rheoli Trysorlys ynghylch pwy i fuddsoddi ynddynt neu i fenthyca iddynt. Roedd y prosesau uchod ar waith, ac felly'n sicrhau bod unrhyw risgiau wedi'u lliniaru hyd yr eithaf.<br><br>Tynnodd aelod sylw hefyd at y ffaith bod cronfeydd cyfalaf wrth gefn yn lleihau oherwydd yr hinsawdd ariannol bresennol. Efallai y byddai angen i'r Awdurdod fenthyca mwy yn y dyfodol. Ar y cyd â hyn, teimlai y dylai fod yn ofynnol i'r ALl fod mor gywir â phosibl wrth ragweld ac amserlennu prosiectau cyfalaf yn y dyfodol, h.y. o ran eu maint ac o ran amseriad cwblhau'r gwaith.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor yn cymeradwyo Strategaeth Gyfalaf 2025-26 i 2034-35, gan gynnwys Dangosyddion Darbodus 2025-26 i 2034-35 a'r Datganiad Isafswm Darpariaeth Refeniw Blynyddol (MRP) 2025-26, yn Atodiad A yr adroddiad. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 26 Chwefror 2025 |

## 109. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Nid oedd unrhyw eitemau brys |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 26 Chwefror 2025 |

I arsylwi trafodaeth bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 18:36.